O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 309 (Cy. 37)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 a'r A40 (Sanclêr i Cross Hands, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *16 Chwefror 2015* |
| *Yn dod i rym* | *23 Chwefror 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffyrdd Llundain – Abergwaun (yr A48 a'r A40) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Chwefror 2015. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 a'r A40 (Sanclêr i Cross Hands, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2015.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00.01 o'r gloch ar 23 Chwefror 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" *("the lengths of the trunk roads")* yw'r darnau hynny o'r cefnffyrdd, yn Sir

Gaerfyrddin, a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlenni 1 a 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlenni 1 a 2, ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 mewn grym.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb ddefnyddio unrhyw gerbyd, na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, i droi i’r dde ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

**Atal**

**8.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cyffordd Meidrim, Sir Gaerfyrddin) (Dileu Cyfyngiadau) 2004**(3)**, Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cyffordd Porth-y-rhyd, Sir Gaerfyrddin) (Dileu Cyfyngiadau) 2005**(4)**, Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40/A48 (Cylchfan Pensarn, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder o 40 mya) 2009**(5)**, Gorchymyn y Gefnffordd (yr A48) (Foelgastell, Dyfed) (Dileu Cyfyngiadau) 1990**(6)**, Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cyffordd Banc-y-felin, Sir Gaerfyrddin) (Dileu Cyfyngiadau) 2004**(7)** a Gorchymyn y Gefnffordd (Sanclêr, Dyfed) (Terfyn Cyflymder o 40 MYA)**(8)** yn cael eu hatal drwy hyn o ran y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**9.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 16 Chwefror 2015

**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)**1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru
**(3)** O.S. 2004/1215 (Cy.131)
**(4)** O.S. 2005/1118 (Cy.69)
**(5)** O.S. 2009/3420 (Cy.302)
**(6)** O.S. 1990/1137
**(7)** O.S. 2004/1411 (Cy.142)
**(8)** O.S. 1982/348

## ATODLEN 1

## TERFYNAU CYFLYMDER 40 MYA A 10 MYA DROS DRO A GWAHARDDIAD AR ODDIWEDDYD

### CEFNFFORDD YR A40

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 65 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn at bwynt 116 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Sanclêr, gan gynnwys system gylchu Cylchfan B&Q.

ii) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 116 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Sanclêr i bwynt 339 o fetrau i'r gogledd-orllewin o Gylchfan Pensarn, gan gynnwys system gylchu Cylchfan B&Q.

**CEFNFFORDD YR A48**

iii) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua’r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 170 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Cross Hands at bwynt 358 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn.

iv) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 50 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn at bwynt 170 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Cross Hands.

## ATODLEN 2

## TERFYN CYFLYMDER 10 MYA DROS DRO A GWAHARDDIAD AR ODDIWEDDYD

i) Y darn cyfan o gerbytffordd gylchu Cylchfan Pensarn.

ii) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua’r dwyrain Cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 339 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn at bwynt 50 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn.

iii) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin Cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 358 o fetrau i’r de-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn at bwynt 65 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn.

## ATODLEN 3

## GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Cross Hands i'w chyffordd â ffordd Dosbarth III, C2085, yn arwain at Heol-y-Foel, Foelgastell.

## ATODLEN 4

## GWAHARDD DROS DRO DROI I’R DDE

i) Y troad i'r dde o gerbytffordd tua'r gorllewin Cefnffordd yr A48 wrth Gyffordd Maes y Bont ar Ffordd Dosbarth III, C2066.

ii) Y troad i'r dde o gerbytffordd tua'r dwyrain Cefnffordd yr A48 wrth Gyffordd Foelgastell ar Ffordd Dosbarth III, C2085.